**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-877
Ein cyf/Our ref KW/07570/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Tachwedd 2019

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau yn gofyn am ba gefnogaeth ac anogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, neu'n gallu ei ddarparu i ysgolion a chyrff eraill sy'n hwyluso neu'n ystyried gweithredu cynlluniau gwisgoedd ysgol ail-law, megis y cynllun sydd ar waith yn Sir Ddinbych.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ganllawiau statudol newydd a ddaeth i rym ym mis Medi 2019. Mae'r canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ac ar gael yma: [https://llyw.cymru/polisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu?_ga=2.160266491.757587845.1574789455-87526102.1552300364](https://llyw.cymru/polisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu?_ga=2.160266491.757587845.1574789455-87526102.1552300364).

Mae'r canllawiau'n darparu cymorth clir a defnyddiol i gyrff llywodraethu o ran gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau gwisg ysgol. Mae'n ymdrin â'r gallu i gael gafael ar wisg ysgol, fforddiadwyedd a hyblygrwydd a bydd yn helpu i sicrhau cysondeb yn y dull gweithredu a ddefnyddir gan ysgolion wrth lunio a thrafod polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran rhoi cymorth ariannol i rieni tuag at gost prynu gwisg ysgol.

Rwy'n ymwybodol iawn bod costau'r diwrnod ysgol yn fater pwysig iawn i lawer o deuluoedd yng Nghymru. Rydym am i bobl ifanc ddod i'r ysgol yn barod i ddysgu ac i gyrraedd y deilliannau gorau posibl. Y llynedd, gofynnais i Plant yng Nghymru gynhyrchu cyfres o ganllawiau i ysgolion yn ymdrin ag agweddau allweddol ar gost y diwrnod ysgol, gan gynnwys deall achosion ac effaith byw mewn tlodi, bwyd a newyn, a gwisgoedd ysgol. Ceir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pennod ar wisg ysgol sy'n cynnwys enghreifftiau ymarferol y gall ysgolion eu gweithredu mewn perthynas â chynlluniau ailgylchu gwisg ysgol. Mae'r canllawiau ar gael yma https://hwb.gov.wales/repository/resource/780da5bf-2216-476e-bba0-208fa18330e8/cy a byddant yn cael eu cyflwyno i ysgolion pan fydd y prosiect yn ehangu yn 2020.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, y Comisiynydd Plant a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant er mwyn sicrhau dull gweithredu strategol ar gyfer y gwaith hwn yn y dyfodol.

Rydym wedi dyblu'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn 2019-20 i dros £5 miliwn. Gall teuluoedd â phlant sy'n **gymwys i gael prydau ysgol am ddim** wneud cais ar gyfer y flwyddyn ysgol academaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2019, os ydynt:

- yn mynd i ddosbarth derbyn neu flwyddyn 3 yn yr ysgol gynradd
- yn mynd i flwyddyn 7 neu flwyddyn 10 yn yr ysgol uwchradd
- yn 4, 7, 11 neu 14 oed mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig neu Unedau Cyfeirio Disgyblion

Mae cyllid hefyd ar gael i blant sy'n derbyn gofal ym mhob blwyddyn ysgol. Y grant ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 yw £200, sy'n cydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau yn yr ysgol uwchradd. Gellir defnyddio’r grant i brynu gwisg ysgol, offer, dillad chwaraeon a dillad ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweinyddu cronfa er mwyn datblygu opsiynau hirdymor sy'n fwy cynaliadwy. Rydym wedi ehangu hyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i gynnwys grwpiau megis clybiau ieuenctid, er mwyn iddyn nhw allu cynnig am arian ar gyfer wisgoedd ymarfer corff. Mae'r cyllid yn cael ei roi gan yr awdurdodau lleol yn uniongyrchol i deuluoedd, oherwydd bod eu cymhwystra’n cael ei wirio ar system wirio genedlaethol a reolir gan yr awdurdodau lleol.

Yn 2018/19 darparwyd cyllid o £48,703 yn Sir Ddinbych. Rydym yn disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu o gofio bod y grant yn cael ei ehangu ac yn dilyn yr ymgyrch gyfathrebu dros yr haf.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education